Sesiwn 1999-2000 Rhif 18

# PAPURAU BUSNES

## RHAN 1 – ADRAN H

## COFNOD O BLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH 14 MEDI 1999

**Dechreuodd y sesiwn am 2pm**

**2.00pm**

**Datganiad y Llywydd**

Hysbyswyd yr aelodau gan y Llywydd bod ganddo bellach gyfrifiadur sgrin-blaen-bys ar ben ei ddesg a bod modd yn awr e-bostio negeseuon ato yn awr i sedd rhif 1.

Hysbysodd y Llywydd yr aelodau i'r Swyddfa Gyflwyno dderbyn llawer o gwestiynau yn ddiweddar ac y cymer felly ychydig fwy o amser nag arfer i'w hateb.

**2.01pm**

**Pwynt o Drefn**

Hysbyswyd y Cynulliad gan Christine Gwyther nad oedd y cyfleusterau cyfieithu yn gweithio yn yr oriel gyhoeddus. Ataliwyd y trafodion gan y Llywydd er mwyn i'r nam gael sylw a'i unioni.

**2.03pm**

**Ethol i'r Pwyllgor ar Faterion Ewropeaidd**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â rheol sefydlog 8.3 a 15.4, yn ethol Nick Bourne (Ceidwadwr) i'w Bwyllgor ar Faterion Ewropeaidd yn lle Rod Richards (Ceidwadwr).

Pasiwyd y cynnig.

**Ethol i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol ag adran 57(8) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a rheol sefydlog 8.3 –

yn ethol Peter Rogers (Ceidwadwr) i’w Bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn lle Nick Bourne (Ceidwadwr).

Pasiwyd y cynnig.

**Ethol i’r Pwyllgor ar Faterion Ewropeaidd**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â rheol sefydlog 8.3 a 15.4, yn ethol Jonathan Morgan (Ceidwadwr) i’w Bwyllgor ar Faterion Ewropeaidd yn lle William Graham (Ceidwadwr).

Pasiwyd y cynnig.

**Ethol i’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a’r Amgylchedd**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol ag adran 57(8) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a rheol sefydlog 8.3 –

yn ethol David Davies i’w Bwyllgor Llywodraeth Leol a’r Amgylchedd yn lle Peter Rogers (Ceidwadwr).

Pasiwyd y cynnig.

**2.05pm**

**Croesawyd David Hansen i’r Sesiwn Lawn gan y Llywydd**

**2.06pm**

**Cwestiynau i’r Prif Ysgrifennydd**

Gofynnwyd y 4 cwestiwn cyntaf.

**2.27pm**

**Cwestiwn Brys i’r Prif Ysgrifennydd**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru)**; A wnaiff esbonio pa gamau y mae’n bwriadu eu cymryd i leddfu effaith colli’r 296 o swyddi yn ffatrïoedd Bairdwear ym Mhontardawe a Maesteg, a pha drafodaethau y mae wedi’u cael gyda’r cwmni am ddyfodol eu ffatrïoedd eraill yn y De.

**2.36pm**

**Datganiad y Prif Ysgrifennydd**

Hysbyswyd yr aelodau gan y Prif Ysgrifennydd bod y Cynulliad wedi ennill statws Buddsoddwyr mewn Pobl.

**2.38pm**

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

Mabwysiadwyd y datganiad busnes.

**2.42pm**

**Mater o Bwys a Brys i'r Cyhoedd**

*Cynigiwyd y ddadl ganlynol gan Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru) fel mater o bwys a brys i'r cyhoedd y dylid ei hystyried ar unwaith.*

Cynnig: Bod y Cynulliad yn cymryd camau brys i helpu ffermwyr a chymunedau cefn gwlad Cymru yng ngoleuni'r argyfwng y mae'r diwydiant amaethyddiaeth yn ei wynebu yng Nghymru. Cafwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol ac fe'i pasiwyd. Yna rhoddwyd y cynnig gwreiddiol ger bron y Cynulliad, ei drafod a'i basio.

**3.49pm**

**Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy**

Mae'r Cynulliad yn nodi ac yn cymeradwyo'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a ddisgrifir yn y datganiad o egwyddorion a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Iau 9 Medi 1999.

Cynigiwyd y cynnig gan Christine Gwyther.

*Dewiswyd y gwelliant canlynol*

Peter Black (Gorllewin De Cymru); ar ddiwedd y testun, ychwaneger "ac yn penderfynu ystyried cynigion ar gyfer sefydlu pwyllgor datblygu cynaliadwy yn unol â rheol sefydlog 8.1 – 8.2

Gwrthodwyd y gwelliant.

Pasiwyd y cynnig.

**4.58pm**

**Dadl Fer ar Roi’r Cynllun Iawndal i Lowyr ar Waith**

Cynigiwyd y pwnc gan Dafydd Wigley (Caernarfon)

**Daeth y sesiwn i ben am 5.29pm**

**********************************

**Bydd Sesiwn Lawn y Cynulliad yn cwrdd eto**

**am 2.00pm ddydd Mercher 15 Medi 1999**

**Papurau a osodwyd ger bron y Cynulliad:**

**21 Gorffennaf**

Datganiad ar Ariannu’r Cynulliad

**4 Awst**

Ystadegau Ariannol Llywodraeth Leol Cymru 1998

**3 Medi**

Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 1999 (Cychwyniad) (Cymru) 1999

**9 Medi**

Datblygu Cynaliadwy – Datganiad o Egwyddorion

**10 Medi**

Sefydlu Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy

Plant ac Ieuenctid – Fframwaith ar gyfer Partneriaeth